



HANES NEFYN



Heddiw mae **Nefyn** ar arfordir gogledd Llŷn yn gyfarwydd i ni fel tref lan y môr boblogaidd ond mae hen hanes iddi. Datblygodd gyntaf yn yr oesoedd canol cynnar, a dyma brif ganolfan cwmwd Dinllaen yn nyddiau tywysogion Gwynedd. Dyma lle cynhaliodd Edward I ei dwrneimant yn 1284 i ddathlu ei fuddugoliaeth dros y Cymry hefyd, ac mae'r enw Cae Iorwerth ar gwr y dre yn dal i dystio i hynny.

Dros y canrifoedd arferai'r pererinion orffwyo yn **Nefyn** ar eu taith ar hyd yr arfordir i Ynys Enlli. Bellach mae hen eglwys y Santes Fair, a adeiladwyd yn Oes Fictoria ar safle hen briordy Celtaidd, yn amgueddfa forwrol. Yma adroddir hanes y dreftadaeth forwrol a fu'n rhan mor bwysig o hanes **Nefyn** a cheir casgliad gwych o greiriau. Yn ystod y 18G a'r 19G, roedd **Nefyn** yn ganolfan bwysig ar gyfer adeiladu ac atgyweirio llongau. Roedd pysgota'n rhan hanfodol o'r economi hefyd. Cofiwch mai tri phennog sydd ar arfbais **Nefyn**.




Mae Llwybr Arfordir Llŷn yn dod i lawr o lethrau'r Eifl a Nant Gwrtheyrn gan blethu ei ffordd drwy hen ran y dref ac ymlaen i Borth Dinllaen ac Ynys Enlli. O'r llwybr ceir golygfeydd bendigedig ar draws bae **Nefyn** - tua mynyddoedd yr Eifl i'r dwyrain a thrwyn Porth Dinllaen i'r gorllewin.

Mae'r daflen hon yn dilyn llwybr o'r amgueddfa i'r traeth - trwy ei ddilyn gallwch ddysgu mwy am y dref hon a'i hanes!

CRWYDRO TREF NEFYN

RYDYM NI
YMA



Eglwys Santes Fair
Stryd y Mynach
Nefyn
Gwynedd LL53 6LB

Ff: 01758 721 313
S: 07917 700 851
E: amgueddfa@nefyn.net
E: meinir.pj@tiscali.co.uk




ENGLISH
LEAFLET
AVAILABLE

WWW.AMGUEDDFA-FORWROL-LLYN.CO.UK



CRWYDRO TREF NEFYN



TREF LAN Y MÔR Â HANES DIFYR
AR ARFORDIR
GOGLEDD LLŷN
DILYNWCH Y MAP TU MEWN
I DDYSGU MWY!

WWW.AMGUEDDFA-FORWROL-LLYN.CO.UK

BE SYDD YN BLE

01 Amgueddfa Forwrol Llŷn Eglwys Santes Fair, Stryd y Mynach. Mae'r Amgueddfa'n arddangos amrywiaeth o greiriau sy'n ymwneud â hanes morwrol yr ardal. Trefnir gweithgareddau hefyd sy'n amlygu hanes a diwylliant Nefyn a Llŷn. Mae'r eglwys yn adeilad rhestredig Gradd 11 ond priordy a safai ar y safle yn yr oesoedd canol cynnar. Byddai'r pererinion yn gorffwys yma ar eu taith i Enlli a threuliodd Gerallt Gymro noson yma yn 1188. Am fwy o wybodaeth ewch i: www.amgueddfa-forwrol-llyn.co.uk

02 Tŷ Receiver Un o ddau fwthyn yn dyddio o'r 18G a adeiladwyd gan stâd Nanhoron ar safle tŷ cynharach oedd yn eiddo i Humphrey Jones, Derbynydd Cyffredinol Cylliid Gogledd Cymru ar ran Siarl I.

03 Y Ffynnon Adeiladwaith o garreg a godwyd yn 1868 dros yr hen ffynnon ble cafodd pobl Nefyn eu dŵr yfed ers cenedlaethau.

04 Tafarn y Three Herrings Heddiw cartre preifat ydi'r adeilad oedd yn arfer bod yn dafarn o eiddo stâd Nanhoron – sef y Nanhoron Arms. Gwelir arwydd y tri phennog – arfbais y dref – yn crogi tu allan.

05 Drws Agored canolfan a swyddfa drafnidiaeth gymunedol O Ddrws i Ddrws. Stafell gyfarfod a mynediad i'r we ar gael.

06 Caffi Penwaig

07 Tŵr Gwyllo Adeiladwyd y tŵr yn 1846 ar safle hen adeilad o bren a chastell mwnt a beili Normanaidd. O ben y tŵr ceid golygfa wych o'r bae a'r traeth: heigiau o benwaig a llongau'n dod adref.

08 Gwesty Nanhoron Arms Enwyd y gwesty ar ôl teulu o dirfeddianwyr lleol, adnabyddus. Mae'r bar yn agored i'r cyhoedd.

09 Canolfan Nefyn Canolfan gymunedol lle ceir gwybodaeth am weithgareddau lleol.

10 Llyfrgell Nefyn Gallwch fynd ar y we yma.

11 Gwesty Caeau Capel Adeiladwyd yn yr 19G fel cartre gwledig i deulu Miller. Arferai'r Prif Weinidog Clement Atlee ymweld yn aml a phriododd â Violet, merch Henry Edward Miller.

12 Caffi glan-y-môr (yn ystod yr haf yn unig)

ALLWEDD CRWYDRO TREF

Toiledau	Maes Parcio	Traeth	Swyddfa'r Post
Golygfan	Gorsaf Dàn	Cae Chwarae	Heddlu
Llwybr Arfordir	Llwybr Tref Nefyn	Eglwys / Capel	